At: Ieuan Wyn Jones AC
Dirprwy Brif Weinidog y Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Enw:
Cyfeiriad:

Annwyl Mr Wyn Jones

Ysgrifennaf i dynnu'ch sylw at broblem sy'n effeithio ar dref Machynlleth ac i ofyn am eich cymorth i geisio ei datrys.

Rydym yn ffodus i fyw ym mhrifddinas hanesyddol Cymru, sy'n adnabyddus am ei bywyd hamddenol a'i chymdeithas gref. Ond yn awr mae yna un mater sy'n cynddeirogi bron â bod pawb: y gyrru peryglus ac anghymdeithasol sy'n digwydd bob awr o'r dydd a'r nos.

Mae Machynlleth wedi ei leoli ar ddwy briffordd: yr A489 a'r A487. Mewn egwyddor, mae cyfyngiad cyflymdra o 30mya ar yr heolydd yma. Yn ymarferol, mae'r rhan fwyaf o yrrwyr yn anwybydu'r cyfyngiad. Mae ein bywydau, ein hiechyd a'n tawelwch meddwl o dan fygythiad.

Mae dau fater. Y cyntaf ydyw bod pobl sy'n gyrru drwy'r dref yn anwybyddu'r arwyddion ac yn parhau i yrru ar gyflymder o 40, 50 neu hyd yn oed 60mya. Maent yn gwibio heibio'r ysgol gynradd ac yn aml yn anwybyddu'r plant sy'n ceisio defnyddio'r groesfan i gerddwyr.
Yr ail fater yw bod criw o yrrwyr ifanc yn defnyddio Machynlleth fel trac rasio. Maent yn rasio fynychaf yn yr hwyr, yn aml yn llawer cyflymach na'r cyfyngder cyflymdra, mewn ceir sydd wedi'u tiwnio i wneud cymaint o sŵn ag y bo modd. Weithiau gwelir yr un ceir yn pasio hanner dwsin o weithiau o fewn 10 munud. Ledled y dref mae pobl yn cwyno nad ydynt yn gallu cysgu'n iawn, ac mae ofn arnynt gerdded ar y palmentydd rhag ofn i un o'r gyrrwyr ifanc yma golli rheolaeth.

Mae'r heddlu'n poeni am y sefyllfa, ond mae eu hadnoddau'n brin, a does ganddynt ond ychydig o swyddogion i wasanaethu ardal eang. Maent wedi esbonio wrthym mewn cyfarfodydd cyhoeddus yr hoffent dreulio mwy o amser yn defnyddio'r gwn cyflymder a brynwyd iddynt gan y dref drwy danysgrifiad cyhoeddus, ond mae eu hadnoddau wedi eu hymestyn i'r eithaf.

Mae'r dref yn gytûn mae'r unig fesur fydd yn delio â'r ddwy broblem yn llwyddiannus yw sefydlu camerâu cyflymder parhaol. Yr ydym yn ymbil arnoch i awdurdodu gosod camera wrth y dair fynedfa i'r dref: ar yr heol i'r Drenewydd ger yr ysgol gynradd; ar Heol Pentrerhedyn ger yr ysgol uwchradd; ac ar Heol y Doll wrth y gofeb rhyfel.

Credwn fod y mater hwn wedi cael ei anwybyddu'n gywilyddus ledled canolbarth Cymru. Mae cais rhyddid gwybodaeth wedi datgelu fod y gyfradd farwolaethau o ganlyniad i ddamweiniau ffyrdd ym Mhowys, yn ôl cofnodion y pum mlynedd

diwethaf (2002-2006), bron â bod wedi dyblu: ar gyfartaledd, y gyfradd o farwolaethau ffordd y pen o'r boblogaeth yn awr ydyw 0.0205%. Yn ôl cofnodion y pum mlynedd diwethaf (2001-2005), yn Lloegr a Chymru yn gyffredinol mae'r gyfradd wedi syrthio 8.5% ac erbyn hyn 0.005% ar gyfartaledd yw'r gyfradd o farwolaethau ffordd. Hynny yw, mae'r gyfradd farwolaethau ar heolydd ym Mhowys 4.1 gwaith yn uwch na'r gyfradd ar gyfer Lloegr a Chymru. Ond ymddengys nad oes yr un camera cyflymder parhaol yn unman yn y sir. Mae'r sefyllfa hon yn un ofnadwy. Gobeithio na fydd yn rhaid disgwyl i rhywun i farw yma cyn i'r gyfraith gael ei gweithredu.

Yn gywir

Yn ddidwyll